

Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru

Adolygiad

Hydref 2006



Mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn Elusen Gofrestredig
(rhif cofrestru 503433)
sy'n derbyn nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru

FFEDERASIWN CERDDORIAETH AMATUR CYMRU

Ffurfiwyd Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, sy'n elusen gofrestrdedig, gan Gyngor y Celfyddydau yn 1969 fel corff etholedig annibynnol a fyddai'n sianelu cymorth ariannol i grwpiau cerddorol amatur, yn cynnig cyngor celfyddydol, ac yn gweithredu fel llais dros berfformwyr amatur yn gyffredinol.

Mae'r Ffederasiwn, ar hyn o bryd, yn gwasanaethu oddeutu pedwar cant o gymdeithasau cysylltiol drwy Gymru gyfan, ac yn cynrychioli tua phum mil ar hugain o berfformwyr amatur. Mae'r rhain yn cynnwys nid yn unig y rhai sy'n gysylltiedig â pherfformio cerddoriaeth amatur draddodiadol yng Nghymru - bandiau pres, corau, cerddorfeydd, cymdeithasau opera amatur a grwpiau canu a dawnsio gwerin - ond hefyd y rhai sy'n ymwneud â cherddoriaeth gymunedol, amlddiwylliannol ac arbrolfol. Cynigir cymorthdaliadau a gwarantau tuag at hybu ystod eang o weithgareddau, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygiad cerddorol. Mae llyfrgell fenthyca sylweddol o sgoriau corawl ar gael er mwyn annog perfformiadau o weithiau sydd y tu allan i'r repertoire traddodiadol; i'r diben hwn mae'r Ffederasiwn yn hybu cyhoeddi copïau perfformio o weithiau a gomisiynwyd gan y gymdeithasau cysylltiol.

Cafodd Band Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Côr Cenedlaethol Ieuencid Cymru, eu sefydlu gan y Ffederasiwn ac mae'r rhain yn parhau i gael eu hariannu a'u gweinyddu ganddo. Diben triphlyg pob un o'r ensemblau ieuencid hynod lwyddiannus hyn yw rhoi cyfle i gerddorion ifanc yng Nghymru ddysgu a pherfformio o dan y tiwtoriaid a'r arweinwyr gorau posibl, ymestyn gorwelion cerddorol drwy gomisiynu gweithiau newydd ac archwilio repertoire eang, a darparu hyfforddiant i arweinwyr a pherfformwyr y dyfodol, yn arbennig oddi mewn i fyd cerddoriaeth amatur yng Nghymru. Mae'r Ffederasiwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyd-bwyllgor Addysg Cymru i gyflwyno Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru; o dan yr ymbarél hwn, sefydlwyd Cerddorfa Jazz Genedlaethol Ieuencid Cymru yn 2001, Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuencid Cymru yn 2002, a Band Pres Symffonig Ieuencid Cymru yn 2004, ac mae'r Ffederasiwn yn gweinyddu pob un ohonynt.

Mae'r Ffederasiwn yn ymwneud fwy fwy â chyd-lynu a noddi cyrsiau hyfforddi ac adfywio, cysylltu â sefydliadau megis *Cymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain*, *Ffederasiwn Corau Ieuencid Prydain*, *'Making Music'* (*Ffederasiwn Cenedlaethol y Cymdeithasau Cerdd*) *Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru*, *Cyfansoddwyr Cymru*, *Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol y BBC yng Nghymru*, a'r gwahanol gymdeithasau sy'n ymwneud â cherddoriaeth amatur yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae'n cynnig ysgoloriaethau i alluogi aelodau ei gymdeithasau cysylltiol i fynychu cyrsiau hyfforddi. Mewn cydweithrediad ag ysgolion a CAGAC, mae'r Ffederasiwn yn rhagweld y bydd ganddo rôl ddatblygol mewn addysg wrth i'r ysgolion yn gynyddol geisio gwneud y gorau posibl o botensial yr arbenigedd cerddorol a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned leol. Drwy ei rwydwaith o gymdeithasau lleol, mae'r Ffederasiwn mewn sefyllfa ddelfrydol i gynorthwyo yn y gwaith o annog pobl ag anghenion arbennig i gymryd rhan, a gall perfformiadau cerddorol yn aml ddod yn ddull hanfodol o gyfathrebu i'r unigolion hyn. Derbyniodd y Ffederasiwn Gymeradwyaeth ym 5ed Cystadleuaeth Flynyddol *Remploy* yng Nghystadleuaeth "Gwobrau Arwain y Ffordd" am adnabod "gwerth gweithlu amrywiol" ac "arddangos arfer glodwiw drwy gyflogi a datblygu pobl anabl".

Mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn cyd-fynd â'r diffiniad o amaturiaid, sef "pobl sy'n caru'r hyn y maent yn ei wneud ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun". Ei nod yw eu cynorthwyo i wneud hynny'n well.

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Erbyn hyn mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru wedi hen ymgartrefu yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Mae'n llythrennol yn 'ffenstr siop' i weithgareddau cerddoriaeth amatur ar draws y Dywysogaeth. Bydd hefyd yn trefnu i amrywiaeth o grwpiau perfformio o'r Ffederasiwn gymryd rhan yng Nghyngherddau Cyntedd rhad ac am ddim y Ganolfan. Denodd y perfformiadau hyn gryn ddiddordeb a chanmoliaeth gan y cyhoedd sy'n eu mynychu ac maent yn gymorth i greu awyrgylch lleoliad byw a bywiog ar gyfer perfformiadau celfyddydol.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, gwelwyd cynnydd yn aelodaeth y Cymdeithasau a gefnogir gan y Ffederasiwn, yn ychwanegol at Ensemblau Celfyddydau Cenedlaethol leuencid Cymru, sef Band Pres Cenedlaethol leuencid Cymru, Côr, Jazz, Cerddorfa Chwyth a Grŵp Pres Symffonig Cenedlaethol leuencid Cymru sy'n parhau i gael eu gweinyddu gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru.

Mae penodi Cydlynnydd Digwyddiadau wedi arwain at gychwyn rhaglen barhaus o weithdai ar draws Cymru gyfan, gyda gweithio ar y cyd â'r BBC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain (Cymru) hefyd yn digwydd. Mae nifer o brosiectau amrywiol ar y gweill, ar y cyd gyda gwasanaethau cerdd awdurdodau lleol, sy'n cynnig gweithgareddau cerdd allgyrsiol gyda chynhwysiad cymdeithasol yn brif ffocws; tynnir sylw at y rhain ac at weithgareddau eraill yn Adroddiad y Cyfarwyddwr.

Mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn parhau i weithio mewn cyswllt agos gyda'i bartneriaid yn Tŷ Cerdd ac ar y cyd gydag amrywiaeth o sefydliadau cerdd ar draws Gymru gyfan; daw'r cydweithio hwn yn fwyfwy manteisiol i'r ddwy ochr.

Mewn cyfnod pan yw nifer yn teimlo bod yr ymdeimlad o gymuned yn erydu yn ein cymdeithas, mae'n bwysig cydnabod fod yr holl weithgareddau a gefnogir gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn digwydd mewn cymunedau, boed y gweithgareddau hynny'n rhai corawl, theatr gerdd, band neu gerddorfa sy'n tynnu eu haelodau o'r gymdogaeth lle cawsant eu sefydlu, neu'r Sefydliadau leuencid Cenedlaethol sy'n begwn eithaf triogl gaiff ei adeiladu drwy fframwaith ysgol, sirol a chenedlaethol yn y pen draw. Mae'r ffaith fod cynifer o gyn aelodau'r grwpiau Cenedlaethol hyn i leuencid bellach eu hunain yn hyfforddi ac yn arwain cymdeithasau cerdd ym mhob cwr o Gymru yn tystio i'r ffaith nad yw ein gwaith gyda phobl ifanc yn cael ei ystyried yn bendraw ynddo'i hun ond yn hytrach yn sylfaen i'r dyfodol yn y Dywysogaeth.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y Ffederasiwn yn unigryw ac yn cefnogi amrywiaeth helaeth o weithgaredd cerddorol yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach fel ei gilydd. Mae'r gwaith hwn yn cynnal pob un sydd, ym mha bynnag fodd, yn canfod ystyr ychwanegol i'w bywydau drwy eu hymwneud â cherddoriaeth. Ein cyfrifoldeb ni, a'n hymrwymiad llwyr yn wir, yw parhau â'n hymdrechion a'u datblygu, gan gofleidio cerddora o Fôn i Fynwy

*Avril Harding
Cadelydd*

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Mae gweithgarwch Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn rhan bwysig o waith cyffredinol Tŷ Cerdd – Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru, sydd, yn ei dro, yn cael ei danategu drwyddo gan Gynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddau Cymru 2005-08, *Allwedd i Ragoriaeth II*. Gellir ystyried bod y cynllunio a'r gweithgarwch hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddeg thema y Cynllun Corfforaethol, sef:

| | |
|------|---|
| CP1 | Argaeledd |
| CP2 | Cymunedau |
| CP3 | Pob Ifanc |
| CP4 | Cyfleoedd Cyfartal |
| CP5 | Yr Iaith Gymraeg |
| CP6 | Cyfleoedd i Artistiaid Unigol |
| CP7 | Isadeiledd y Celfyddydau |
| CP8 | Addysg a hyfforddiant |
| CP9 | Partneriaeth |
| CP10 | Gwerthoedd ac Egwyddorion Corfforaethol |

Mae gweithgarwch Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn canolbwyntio ar:

- Cefnogaeth i gerddora fywiog a chreadigol ar draws Cymru gyfan;
- Ansawdd a chodi safonau;
- Gweithio ar draws rhwystrau ieithyddol;
- Cydweithio: cymunedau a phartneriaethau;
- Gweithio'n agos gyda phobl ifanc;
- Gwerth am arian: "buddsoddiadau bychain yn dwyn enillion sylweddol"
- Rhoi llais i bobl.

Tueddiadau

Mae nifer aelodau'r Ffederasiwn yn parhau i gynyddu, ac yn 395 ar hyn o bryd; rydym yn parhau ar y ffordd i gyrraedd y nod o ennill 400 aelod erbyn 2006-07. Bob blwyddyn, byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi manylion am ystod oedran, nifer, diwrnodau ymarfer a manau cyfarfod, ynghyd â gwybodaeth arall oddi wrth bob cymdeithas, fel bod gennym gronfa ddata unigryw o bron i 20,000 o berfformwyr sy'n ein galluogi i asesu tueddiadau a datblygiadau. Unwaith eto, gwelwyd cynnydd cyffredinol bychan ond arwyddocaol yng nghanran aelodau'r cymdeithasau sydd dan 30 oed (o 23% yn 2005 i 25.3% yn 2006); caiff hyn ei gydbwyso gan leihad yng nghanran y rhai hynny rhwng 45 – 60 (o 25% i 24.4%), a'r rhai hynny dros 60 (o 36% i 34.2%). Mae'n dangos fod yr aelodau newydd sy'n cysylltu eu hunain â'r Ffederasiwn yn dod o blith pobl ifanc yn gyffredinol, ac mae'r tuedd hwn i'w weld yn fwyaf amlwg ymhlith corau cymysg, ensemblau offerynnol, a chymdeithasau theatr gerdd.

Gweithgaredd, presenoldeb a chyfranogaeth

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Ffederasiwn yn cysylltu â chymunedau drwy

1 Aelod-Gymdeithasau

Yn y flwyddyn ariannol 2005-06 (ffigurau 2004-05 mewn cromfachau) cafodd 535 (506) o geisiadau eu prosesu; cynigiwyd nawdd fel a ganlyn:

- i 45 (48) o Gorau Cymysg a Cherddorfeydd tuag at 133 (122) o berfformiadau gyda chyfanswm cynulleidfa o 26,464 (25,147) ac yn dwyn cyfanswm gwariant o £401,484 gan y cymdeithasau hyn (yn erbyn cyfraniad o £33,000 gan y Ffederasiwn);
- i 39 (43) o Gymdeithasau Theatr Gerdd tuag at 86 (86) sioe yn cynrychioli 393 (426) perfformiad gyda chyfanswm cynulleidfa o 110,757 (110,583) ac yn dwyn gwariant o £1,125,839 gan y cymdeithasau hyn (yn erbyn cyfraniad o £27,500 gan y Ffederasiwn)

- derbyniodd 169 (169) o fandiau a chorau grantiau tuag at sgoriau cerddorol;
- derbyniodd 89 (87) o gorau meibion neu gorau merched grantiau tuag at gostau teithio arweinyddion a/neu gyfeilyddion;
- derbyniodd 28 (23) o fandiau grantiau atgyweirio offerynnau, a derbyniodd 9 (9) band arall offerynnau o dan y cynllun offerynnau.
- dyfarnwyd 11 grant ar gyfer gweithdai, cystadlaethau a bwrsariaethau (gweler isod);
- cefnogwyd 16 comisiwn cerddoriaeth newydd naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydol eraill (gweler isod);
- gwariwyd £7,615 ar sgoriau newydd i'r llyfrgell fenthyg (gweler isod);

Yn ychwanegol at y perfformiadau gafodd eu gwarantu gan y Ffederasiwn, amcangyfrifir fod oddeutu 4,250 o berfformiadau wedi eu rhoi gan gymdeithasau'r Ffederasiwn i gyfanswm cynulleidfa o 507,750.

Mynychodd dros 1.5 miliwn o bobl ymarferiadau yn ystod y flwyddyn.

2 Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru (FfCAC)

Parhawyd i ddarparu cefnogaeth ariannol a gweinyddol i bump o ensemblau Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru sy'n rhan o gylch gorchwyl y Ffederasiwn - Band Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Côr, Jazz, Cerddorfa Chwyth a Grŵp Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuencid Cymru - ac roedd hyn yn golygu dros 400 o geisiadau a chlyweliadau, 7 cwrs preswyl, 73 gweithdy/ymarferion, 14 perfformiad, 3 recordiad, 3 darllediad a thair i lwerddon. Drwy weinyddiaeth a gwariant y Ffederasiwn eleni, sef £42,500, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy bartneriaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru, bu'n bosibl i bump allan o'r chwe ensemble cerdd cenedlaethol i ieuencid gyflwyno rhaglenni gwaith llwyddiannus - gwerth am arian heb os nac oni bai! Roedd y gwariant hefyd yn cynnwys grant gan y Ffederasiwn (£1,500) i Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru, oedd yn dathlu ei 60^{fed} Pen-blwydd eleni.

3 Gweithdai a Digwyddiadau

Yn dilyn apwyntio Cydlynnydd Digwyddiadau, cychwynwyd ar raglen ychwanegol o weithdai ar y cyd gyda'r BBC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain (Cymru) ym mis Mawrth, ac mae'n parhau drwy'r flwyddyn. Rhwng misoedd Ionawr a Mehefin 2006, trefnwyd mwy na 50 o berfformiadau gan gymdeithasau amatur a'u hybu gan y Ffederasiwn fel rhan o'r gyfres o gyngherddau am ddim a gynhelir yng Nghanolfan Mileniwm Cymru; rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i tua 200 o berfformiadau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

4 Datblygiad a Phrosiectau

Dan ei gynllun Datblygu a Phrosiectau, mae'r Ffederasiwn wedi parhau i weithio gyda gwasanaethau cerdd awdurdodau addysg lleol, ac yn fwyaf diweddar gydag ysgolion Blaenau Gwent, mewn prosiectau sydd â chynhwysiad cymdeithasol yn nod ac mae wedi datblygu gweithgaredd cerdd allgyrsiol ehangach (gan gynnwys comisiynu cerddoriaeth newydd). Dyma'r agwedd o waith y Ffederasiwn sy'n rhoi'r cyfle gorau i ddatblygu gwahanol fathau o gerddoriaeth, gan gynnwys, er enghraifft, cerddorfeydd dur, drymio Affricanaidd ac Indiaidd, a cherddoriaeth roc, drwy roi cefnogaeth, ar y cyd â phartneriaid, i weithdai, perfformiadau a recordiadau yn stiwdio Tŷ Cerdd. Yn genedlaethol, rhoddwyd nawdd hefyd tuag at amrywiaeth o brosiectau, gyda saith ar hugain o grantiau yn cael eu dyfarnu ar gyfer gweithdai, gweithiau comisiwn, bwrsariaethau, cyrsiau, a phrosiectau estyn allan. Ychwanegwyd yn sylweddol unwaith eto at nifer y gweithiau yn y llyfrgell gan ddwyn gwariant o £7,615, ac roedd hyn yn cynnwys prynu darnau repertoire i ensemblau jazz, chwyth a phres (gweler uchod). Cafodd staff y Ffederasiwn wersi Cymraeg, ac mae'r polisi o weithio tuag at gyhoeddiadau dwyieithog mewn perthynas â holl wybodaeth y Ffederasiwn wedi ei gyflawni i raddau helaeth.

5 Partneriaethau

Mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn parhau i gysylltu gydag amryfal sefydliadau cerdd, ac yn eu plith mae'r Cymdeithasau Bandiau Pres a Chorau Meibion, Cerddora/Making Music (Ffederasiwn Cenedlaethol y Gwasanaethau Cerdd:NFMS), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain (*Association of British Choral Directors*), Cerddoriaeth Gymunedol Cymru (*Community Music Wales*), Celfyddydau Gymunedol Rhyng-Ddiwylliannol De Cymru (*South Wales Inter-Cultural Community Arts*), Sefydliad y Gymdeithas Hawliau Perfformio (*The Performing Right Society Foundation*); adran Addysg y BBC, adran Addysg Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, ac eraill. Mae'n gweithio agos gyda'i sefydliadau partner yn y Tŷ Cerdd a gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a'i chwmnïau preswyl eraill - Academi, Diversions, Hijinx, Ymddiriedolaeth Trust, Urdd Gobaith Cymru a Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru er mwyn cyflwyno rhaglenni sy'n ymwneud ag addysg a hybu cerddoriaeth Gymreig. Bydd y Cyfarwyddwr yn mynychu cyfarfodydd CAGAC (Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru), Grŵp Cerdd Gogledd Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r Ffederasiwn yn aelod o Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru, ac mae'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff eraill ar faterion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth gerdd yng Nghymru.

6 Marchnata

Cynyddodd y Ffederasiwn ei weithgarwch marchnata yn sylweddol, ac mae'n cyhoeddi Cylchlythyr deirgwaith y flwyddyn, yn datblygu'r wefan a chreu ardal "galw heibio" am wybodaeth ac ardal arddangos yn swyddfeydd Tŷ Cerdd. Erbyn hyn, mae'n ymdrin ag oddeutu 10,500 o ymholiadau bob blwyddyn, yn amrywio o geisiadau am gyngor ar repertoire, cyllido, ysgrifennu a darllen cerddoriaeth, ffurfio neu ymuno â chymdeithas gerdd, darparu ensemblau cerdd ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau, gwersi cerdd i blant, ac ati.

7 Monitro

Lluniwyd strwythur cynhwysfawr a pharhaus o fonitro a gwerthuso cynnydd drwy'r flwyddyn gan y rhwydwaith swyddogion a'r pwyllgor. Roedd hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau "hunan-arfarnu" gan gymdeithasau sy'n derbyn grantiau neu warantau perfformiad.

8 Cymru Gyfan

Mae'r cymdeithasau mewn cymunedau lleol sy'n aelodau o'r Ffederasiwn yn adlewyrchu demograffeg Cymru fel a ganlyn:

- Gogledd Cymru: 87 cymdeithas, gydag aelodaeth o 4201
- Gorllewin Cymru: 112 cymdeithas, gydag aelodaeth o 5770
- De Ddwyrain Cymru 185 cymdeithas, gydag aelodaeth o 8722

Caiiff Aelodau o bwyllgorau Arbenigol a Gweithredol y Ffederasiwn eu henwebu a'u hethol gan gymdeithasau cyswllt, a cheir cynrychiolaeth gyfartal drwy Gymru gyfan. Gwasanaethodd yr aelodau a etholwyd yn 2004 hyd Awst 2006, a chynigiwyd ganddynt gefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr ar adeg hanfodol yn hanes y Ffederasiwn. Diolchwn iddynt am eu gwaith, ac, ar y cyd â'r pwyllgorau Gweinyddol ac Arbenigol sydd newydd eu hethol, edrychwn ymlaen at gynnydd a datblygiad pellach.

Keith Griffin
Cyfarwyddwr

CYMDEITHASAU 2006 / SOCIETIES 2006

Bandiau Pres / Brass Bands

| <i>Gogledd Cymru (18) North Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
|--|-------|-------|-------|-----|-------|
| Aelodaeth/Membership | 507 | 105 | 105 | 69 | 786 |
| Cyfartaledd/Average | 28 | 6 | 6 | 4 | 44 |
| Canran/Percentage | 64.5 | 13.3 | 13.3 | 8.9 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (14) West Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 328 | 124 | 100 | 57 | 609 |
| Cyfartaledd/Average | 23 | 9 | 7 | 4 | 44 |
| Canran/Percentage | 53.9 | 20.4 | 16.4 | 9.3 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (35) South East Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 703 | 297 | 159 | 85 | 1244 |
| Cyfartaledd/Average | 20 | 8 | 5 | 2 | 36 |
| Canran/Percentage | 56.5 | 23.9 | 12.8 | 6.8 | 100.0 |
| <i>CYMRU (69) WALES</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 1606 | 526 | 364 | 211 | 2707 |
| Cyfartaledd/Average | 23 | 8 | 5 | 3 | 39 |
| Canran/Percentage | 59.3 | 19.4 | 13.5 | 7.8 | 100.0 |

NB All Wales Includes National Youth Brass Ensembles

Côrau Merched / Ladies Choirs

| <i>Gogledd Cymru (5) North Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
|--|-------|-------|-------|------|-------|
| Aelodaeth/Membership | 12 | 51 | 78 | 56 | 197 |
| Cyfartaledd/Average | 2 | 10 | 16 | 11 | 39 |
| Canran/Percentage | 6.1 | 25.9 | 39.6 | 28.4 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (12) West Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 25 | 87 | 144 | 170 | 426 |
| Cyfartaledd/Average | 2 | 7 | 12 | 14 | 36 |
| Canran/Percentage | 5.9 | 20.4 | 33.8 | 39.9 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (15) South East Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 11 | 91 | 151 | 236 | 489 |
| Cyfartaledd/Average | 1 | 6 | 10 | 16 | 33 |
| Canran/Percentage | 2.2 | 18.6 | 30.9 | 48.3 | 100.0 |
| <i>CYMRU (32) WALES</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 48 | 229 | 373 | 462 | 1112 |
| Cyfartaledd/Average | 2 | 7 | 12 | 14 | 35 |
| Canran/Percentage | 4.3 | 20.6 | 33.5 | 41.6 | 100.0 |

CYMDEITHASAU 2006 / SOCIETIES 2006

Côrau Meibion / Male Choirs

| <i>Gogledd Cymru (30) North Wales</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
|--|--|-------|-------|-------|------|-------|
| Aelodaeth/Membership | | 36 | 153 | 361 | 738 | 1288 |
| Cyfartaledd/Average | | 1 | 5 | 12 | 25 | 43 |
| Canran/Percentage | | 2.8 | 11.9 | 28.0 | 57.3 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (30) West Wales</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | | 27 | 120 | 399 | 1010 | 1556 |
| Cyfartaledd/Average | | 1 | 4 | 13 | 34 | 52 |
| Canran/Percentage | | 1.7 | 7.7 | 25.7 | 64.9 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (47) South East Wales</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | | 50 | 209 | 693 | 1404 | 2356 |
| Cyfartaledd/Average | | 1 | 4 | 15 | 30 | 50 |
| Canran/Percentage | | 2.1 | 8.9 | 29.4 | 59.6 | 100.0 |
| <i>CYMRU (107) WALES</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | | 113 | 482 | 1453 | 3152 | 5200 |
| Cyfartaledd/Average | | 1 | 5 | 14 | 29 | 49 |
| Canran/Percentage | | 2.2 | 9.3 | 27.9 | 60.6 | 100.0 |

Cerddorfeydd ac Ensemblau Offerynnol / Orchestras and Instrumental Ensembles

| <i>Gogledd Cymru (1) North Wales</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
|---|--|-------|-------|-------|------|-------|
| Aelodaeth/Membership | | 15 | 15 | 15 | 15 | 60 |
| Cyfartaledd/Average | | 15 | 15 | 15 | 15 | 60 |
| Canran/Percentage | | 25.0 | 25.0 | 25.0 | 25.0 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (5) West Wales</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | | 120 | 67 | 55 | 31 | 273 |
| Cyfartaledd/Average | | 24 | 14 | 11 | 6 | 55 |
| Canran/Percentage | | 44.0 | 24.5 | 20.2 | 11.3 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (8) South East Wales</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | | 211 | 101 | 58 | 31 | 401 |
| Cyfartaledd/Average | | 26 | 13 | 7 | 4 | 50 |
| Canran/Percentage | | 52.6 | 25.2 | 14.5 | 7.7 | 100.0 |
| <i>CYMRU (15) WALES</i> | | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | | 456 | 183 | 128 | 77 | 844 |
| Cyfartaledd/Average | | 30 | 12 | 9 | 5 | 56 |
| Canran/Percentage | | 54.1 | 21.7 | 15.1 | 9.1 | 100.0 |

NB All Wales Includes NYOW

CYMDEITHASAU 2006 / SOCIETIES 2006

Côrau SATB / SATB Choirs

| <i>Gogledd Cymru (19) North Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
|--|-------|-------|-------|------|-------|
| Aelodaeth/Membership | 97 | 214 | 392 | 416 | 1119 |
| Cyfartaledd/Average | 5 | 11 | 21 | 22 | 59 |
| Canran/Percentage | 8.7 | 19.1 | 35.0 | 37.2 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (30) West Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 176 | 263 | 465 | 710 | 1614 |
| Cyfartaledd/Average | 6 | 9 | 16 | 24 | 54 |
| Canran/Percentage | 10.9 | 16.3 | 28.8 | 44.0 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (49) South East Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 564 | 514 | 729 | 1007 | 2814 |
| Cyfartaledd/Average | 12 | 10 | 15 | 21 | 57 |
| Canran/Percentage | 20.0 | 18.3 | 25.9 | 35.8 | 100.0 |
| CYMRU (99) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 930 | 991 | 1586 | 2133 | 5640 |
| Cyfartaledd/Average | 9 | 10 | 16 | 22 | 57 |
| Canran/Percentage | 16.5 | 17.6 | 28.1 | 37.8 | 100.0 |

NB All Wales Includes National Youth Choir

Cymdeithasau Sioeau Cerdd / Musical Theatre Societies

| <i>Gogledd Cymru (11) North Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
|--|-------|-------|-------|------|-------|
| Aelodaeth/Membership | 366 | 97 | 113 | 78 | 654 |
| Cyfartaledd/Average | 33 | 9 | 10 | 7 | 59 |
| Canran/Percentage | 56.0 | 14.8 | 17.3 | 11.9 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (19) West Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 399 | 244 | 158 | 155 | 956 |
| Cyfartaledd/Average | 21 | 13 | 8 | 8 | 50 |
| Canran/Percentage | 41.8 | 25.5 | 16.5 | 16.2 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (26) South East Wales</i> | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 488 | 218 | 303 | 207 | 1216 |
| Cyfartaledd/Average | 19 | 8 | 12 | 8 | 47 |
| Canran/Percentage | 40.1 | 18.0 | 24.9 | 17.0 | 100.0 |
| CYMRU (56) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60+ | Total |
| Aelodaeth/Membership | 1253 | 559 | 574 | 440 | 2826 |
| Cyfartaledd/Average | 22 | 10 | 10 | 8 | 50 |
| Canran/Percentage | 44.3 | 19.8 | 20.3 | 15.6 | 100.0 |

CYMDEITHASAU 2006 / SOCIETIES 2006

Cerddorfeyd Chwyth / Wind Orchestras

| <i>Gogledd Cymru (3) North Wales</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
|---|--------------|--------------|--------------|------------|--------------|
| Aelodaeth/Membership | 64 | 14 | 10 | 9 | 97 |
| Cyfartaledd/Average | 21 | 5 | 3 | 3 | 32 |
| Canran/Percentage | 66.0 | 14.4 | 10.3 | 9.3 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (2) West Wales</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
| Aelodaeth/Membership | 24 | 22 | 13 | 7 | 66 |
| Cyfartaledd/Average | 12 | 11 | 7 | 4 | 33 |
| Canran/Percentage | 36.4 | 33.3 | 19.7 | 10.6 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (5) South East Wales</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
| Aelodaeth/Membership | 145 | 31 | 34 | 15 | 225 |
| Cyfartaledd/Average | 29 | 6 | 7 | 3 | 45 |
| Canran/Percentage | 64.4 | 13.8 | 15.1 | 6.7 | 100.0 |
| <i>CYMRU (11) WALES</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
| Aelodaeth/Membership | 284 | 67 | 57 | 31 | 439 |
| Cyfartaledd/Average | 26 | 6 | 5 | 3 | 40 |
| Canran/Percentage | 64.7 | 15.3 | 13.0 | 7.0 | 100.0 |

NB All Wales Includes National Youth Wind Orchestra

CYMDEITHSAU / ALL SOCIETIES

| <i>Gogledd Cymru (87) North Wales</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
|---|--------------|--------------|--------------|------------|--------------|
| Aelodaeth/Membership | 1097 | 649 | 1074 | 1381 | 4201 |
| Cyfartaledd/Average | 13 | 7 | 12 | 16 | 48 |
| Canran/Percentage | 26.1 | 15.4 | 25.6 | 32.9 | 100.0 |
| <i>Gorllewin Cymru (112) West Wales</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
| Aelodaeth/Membership | 1099 | 927 | 1334 | 2410 | 5770 |
| Cyfartaledd/Average | 10 | 8 | 12 | 22 | 52 |
| Canran/Percentage | 19.0 | 16.1 | 23.1 | 41.8 | 100.0 |
| <i>De-Dwyrhain Cymru (185) South East Wales</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
| Aelodaeth/Membership | 2168 | 1453 | 2122 | 2979 | 8722 |
| Cyfartaledd/Average | 12 | 8 | 12 | 16 | 48 |
| Canran/Percentage | 24.9 | 16.7 | 24.3 | 34.1 | 100.0 |
| <i>CYMRU (395) WALES</i> | <i>15-30</i> | <i>30-45</i> | <i>45-60</i> | <i>60+</i> | <i>Total</i> |
| Aelodaeth/Membership | 4823 | 3057 | 4655 | 6506 | 19041 |
| Cyfartaledd/Average | 12 | 8 | 12 | 16 | 48 |
| Canran/Percentage | 25.3 | 16.1 | 24.4 | 34.2 | 100.0 |

NB All Wales Includes National Youth Arts Wales, Folk and Childrens societies

GWOBWR W.S.GWYNN WILLIAMS

Ar argymhelliad y Cadeirydd, mae'r Ffederasiwn yn cyflwyno'r wobwr hon yn flynyddol i'r gymdeithas yr ystyria ei bod wedi gwneud y cynnydd mwyaf ym maes cerddora gan amaturiaid yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae'r wobwr hon, sy'n cael ei rhoi er cof am Gadeirydd a sylfaenydd y Ffederasiwn, yn werth £750. Cyhoeddir enw enillydd Gwobr 2006 yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Dyma enwau enillwyr blaenorol:

| | | | |
|------|-----------------------------------|------|------------------------------------|
| 1980 | Cymdeithas Gorawl Colwyn | 1993 | Cymdeithas Gorawl Mynwy |
| 1981 | Cantorion Cadeirlan Aberhonddu | 1994 | Côr Meibion Froncysyllte |
| 1982 | Philomusica Aberystwyth | 1995 | Band Tref Rhydaman |
| 1983 | Band Pres Ystrad Mynach | 1996 | Cymd. Gorawl yr Wyddgrug a'r Cylch |
| 1984 | Cantorion Sirenian | 1997 | Côr Meibion Risca |
| 1985 | Band Pres Cen'thol Ieuencid Cymru | 1998 | Band Tref Blaenafon |
| 1986 | Band Pres Penclawdd | 1999 | Côr Cenedlaethol Ieuencid Cymru |
| 1987 | Côr Meibion Silurian Rhymni | 2000 | CAOD Y Fenni |
| 1988 | Cymdeithas Gorawl Llandaf | 2001 | Colstars (Aberdâr) |
| 1989 | Côr Ieuencid Oakdale | 2002 | Band Porthaethwy |
| 1990 | Band Pres Deiniolen | 2003 | Cwni "Unknown Theatre" |
| 1991 | Côr Bach Abertawe | 2004 | Ceddorion Ifanc Hemiola |
| 1992 | Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd | 2005 | Cymdeithas Gorawl Cruchywel |

GWOBWR BETI GWYNN WILLIAMS

(Gwobr arweinydd Ieuencid)

Katie Thomas

GWEITHGAREDDAU IEUENCTID / YOUTH ACTIVITIES

Aelodaeth CCIC 2006 / NYAW Membership 2006
(key: applied/members)

| Unitary Authority | NYBBW | NYCW+ NYTCW | NYDW | NYJW | NYOW | NYTW | NYWOW | TOTAL |
|-------------------------|--------|----------------|--------|-------|---------|--------|--------|-----------------|
| Anglesey/Ynys Mon | 8/6 | 0/0+0 | 0/0 | 0/0 | 12/9 | 2/0 | 3/2 | 25/17+0 |
| Blaenau Gwent | 0/0 | 3/2+0 | 5/1 | 2/1 | 0/0 | 8/6 | 1/0 | 19/10+0 |
| Bridgend/PBOgwr | 0/0 | 5/2+1 | 3/0 | 0/0 | 13/7 | 1/0 | 1/0 | 23/9+1 |
| Caerphilly/Caerffill | 2/1 | 3/0+2 | 6/0 | 1/0 | 14/9 | 5/1 | 1/1 | 32/11+1 |
| Cardiff/Caerdydd | 15/6 | 9/3+3 | 17/3 | 6/1 | 43/28 | 19/5 | 14/9 | 123/55+3 |
| Carms/Sir Gâr | 8/5 | 18/10+3 | 7/2 | 2/2 | 17/11 | 34/5 | 5/4 | 91/39+3 |
| Ceredigion | 9/2 | 19/3+2 | 4/0 | 3/1 | 7/5 | 20/4 | 3/1 | 65/16+2 |
| Conwy | 2/0 | 2/1+0 | 3/0 | 0/0 | 6/3 | 19/5 | 2/1 | 34/10+0 |
| Denbs/Dinbych | 0/0 | 2/1+0 | 5/1 | 0/0 | 0/0 | 11/4 | 0/0 | 18/6+0 |
| Flintshire/Sir y Fflint | 1/1 | 11/5+2 | 2/0 | 1/0 | 3/2 | 5/1 | 1/0 | 24/9+2 |
| Gwynedd | 4/1 | 2/2+0 | 3/0 | 0/0 | 9/7 | 4/2 | 4/3 | 26/15+0 |
| Merthyr Tudful | 3/2 | 3/0+2 | 0/0 | 0/0 | 3/2 | 3/0 | 0/0 | 12/4+2 |
| Mon/Sir Fynwy | 10/5 | 7/2+1 | 6/3 | 11/1 | 15/7 | 14/4 | 12/5 | 75/27+1 |
| NPT/Castell NeddPT | 8/4 | 9/3+2 | 4/2 | 0/0 | 14/4 | 2/1 | 4/1 | 41/15+2 |
| Newpt/Casnewydd | 10/3 | 6/2+3 | 6/0 | 10/4 | 13/5 | 4/2 | 22/9 | 71/25+3 |
| Pembs/Sir Benfro | 5/3 | 3/2+0 | 13/3 | 14/6 | 25/9 | 4/2 | 12/5 | 76/30+0 |
| Powys | 2/2 | 4/2+0 | 12/2 | 3/0 | 15/6 | 19/6 | 0/0 | 55/18+0 |
| Rhondda C' Taff | 2/2 | 1/0+0 | 6/0 | 2/0 | 7/2 | 15/3 | 0/0 | 33/7+0 |
| Swansea/Abertawe | 11/3 | 14/2+9 | 16/6 | 2/0 | 24/9 | 17/6 | 6/4 | 90/30+9 |
| Torfaen | 6/5 | 3/0+2 | 4/0 | 3/0 | 6/4 | 2/0 | 5/4 | 29/13+2 |
| VofGlam/Bro Morg | 6/2 | 2/1+0 | 7/0 | 1/1 | 7/1 | 9/2 | 3/2 | 35/9+0 |
| Wrexham/Wrecsam | 1/0 | 0/0+0 | 1/0 | 0/0 | 8/4 | 4/2 | 5/1 | 19/7+0 |
| TOTAL | 113/52 | 126/ 43+32 | 130/23 | 61/17 | 261/134 | 221/55 | 104/52 | 1016/ 376+32 |

Band Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru

Cyngherddau 2006

Galeri Caernarfon

Dydd Gwener 28 Gorffennaf 7.30 pm Friday 28 July

Theatr Elfed, Bwcle : Theatre Elfed, Buckley

Dydd Sadwrn 29 Gorffennaf 7.30pm Saturday 29 July

Neuadd Prichard-Jones, Bangor : Prichard-Jones Hall Bangor

Dydd Sul 30 Gorffennaf 3pm Sunday 30 July

Repertoire 2006

| | |
|---|--------------------------------|
| Vivat Regina | William Mathias |
| Concerto for Piano (Four Hands) and Brass Band <i>(Helen & Harvey Davies, piano - first performance)</i> | Bill Connor |
| Concerto for Tenor Horn and Brass Band (Owen Farr, tenor horn) <i>(first performance: Commissioned by the Welsh Amateur Music Federation at Ty Cerdd-Music Centre Wales, with additional funding from the Arts Council of Wales and the PRS Foundation.)</i> | Gareth Wood |
| Of Men and Mountains | Edward Gregson |
| Fantasia on Welsh Nursery Tune <i>(c. OUP 1956, 2006; arrangement and performances by permission)</i> | Grace Williams arr. Buckley |
| Music of the Spheres | Philip Sparke |
| Variations on a Welsh Theme (Owen Farr, tenor horn) | Peter Kneale |
| Palladio; Salm o Dewi Sant; Cú Chullain | Karl Jenkins arr. Small |
| Berne Patrol; American Dream; Mr Lear's Carnival | Elgar Howarth |

Mwynhaodd Band Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru, dan arweiniad ei Gyfarwyddwr Cerdd, Robert Childs, gwrs a thaith gyngerdd hynod lwyddiannus yng Ngogledd Cymru ym mis Gorffennaf.

Agorwyd y daith gan y Band yn lleoliad celfyddydol mwyaf newydd y Gogledd, sef Galerï yng Nghaernarfon, ar ddydd Gwener 28^{ain} Gorffennaf, ac yma y cyflwynodd berfformiad cyntaf *Concerto for Piano (Four Hands) and Brass Band* gan Bill Connor. Roedd y cyfansoddwr, sy'n byw ar Ynys Môn, yn bresennol i glywed y darn yn cael ei chwarae gan y ddau y'i cyflwynwyd iddynt, sef Helen a Harvey Davies.

Y noson wedyn, clywodd cynulleidfau niferus a brwdfrydig yn Theatr Elfed, Bwcle, berfformiad cyntaf gan BPCIC o waith Gareth Wood, *Concerto for Tenor Horn and Band* gydag Owen Farr yn unawdydd. Cyflwynwyd ail berfformiad o'r gwaith yng nghyngerdd olaf taith y Band yn Neuadd Prichard Jones, Bangor, ac roedd y rhaglen heriol y tro hwn yn cynnwys *Of Men and Mountains* gan Gregson a *Music of the Spheres* gan Philip Sparke.

